# rheolau a chosbau

Roedd rheolau'r Carchar, a oedd yn cael eu newid yn aml i gydymffurfio a barn y Senedd ynghylch amodau yn y carchardai, yn llym ac yn cael eu gweithredu'n gaeth. Os oedd carcharorion yn camymddwyn roeddynt yn wynebu colli nwyddau, cael eu fflangellu neu eu rhoi ar eu pennau eu hunain. Defnyddiwyd y felin draed a'r cranc llaw fel cosbau hefyd.

**"12. - Every prisoner guilty of any of the following offences will subject himself to punishment:- Talking, shouting, cursing, swearing, singing, whistling, or attempting to communicate by signs..."**

*Rheolau Carchar Rhuthun i Garcharorion tua 1850 (Archifdy Sir Ddinbych).*

Weithiau roedd y ddisgyblaeth yn fwy llac. Yn 1848 adroddodd yr Arolygwr Carchardai fod y carcharorion yn parhau yn eu gwelyau am 7.30am pan ddylent fod wedi codi am 6am, nid oedd y rheol dim siarad yn cael ei gweithredu, ac er bod ysmygu'n waharddedig "there was a smell of tobacco in one of the principal day-rooms". Ni ddarllenwyd gweddïau dyddiol ac ni wnaeth y llywodraethwr gyflwyno adroddiad ynghylch ymosodiad ar warden gan garcharor meddw. Wedi i'r adroddiad argymell y dylid ei ddiswyddo, ymddiswyddodd y llywodraethwr.

WHIP, OR ROD, WANDSWORTH.



WHIPPING-POST, WANDSWORTH.

*"Y wialen a'r man chwipio yng Ngharchar Wandsorth."*

*(Criminal Prisons in London and Scenes of Prison Life gan* H. Mayhew a J. Binny, cyhoeddwyd gyntaf yn 1862.)

# y cranc

Fel math o waith neu gosb gorfodwyd y carcharorion i droi dolen cranc llaw - ymarfer ail-adroddus a chwbl ddiwerth.

Disgwylid i'r carcharorion droi'r ddolen 14,480 gwaith y diwrnod (1,800 tro yr awr) a 12,000 gwaith y diwrnod i'r bobl ifanc (1,500 tro yr awr - sy'n gyfystyr a throi'r ddolen unwaith bob $2^1/_2$ eiliad). Mewn rhai carchardai, fel Caerlyr, roedd yn ofynnol i'r carcharorion droi'r peiriant 2,000 gwaith i ennill eu brecwast a 5,000 gwaith i gael eu cinio.

Dim ond i un cyfeiriad yr oedd dolen y cranc llaw yn troi a gellid gosod y mecanwaith cyfrif yn ôl i sero gan wardeniaid y tu allan i'r gell. Gyda rhai modelau roedd cwpanau'n codi tywod o flwch, yn ei gludo i ben yr olwyn, lle roedd yn disgyn yn ôl i'r blwch gwaelod. Gydag eraill roedd y gwasgedd ar olwyn ffrithiant yn cael ei reoli gan y wardeiniaid (a gafodd eu llysenwi'n "screws") a oedd yn addasu'r pwysau neu'n tynhau'r cogiau wrth iddynt weithio'n rhydd. Roedd y peiriannau diweddarach yn rheoleiddio'r mecanwaith eu hunain.



*"Carcharor yn troi'r cranc llaw."*

*(Criminal Prisons in London and Scenes of Prison Life gan* H. Mayhew a J. Binny, cyhoeddwyd gyntaf yn 1862.)

# plicio ocwm

Cyflwynwyd yr arfer o blicio ocwm, sef datod a glanhau rhaff neu "sbwriel" i'r carchardai fel cosb i'r dynion yn 1840:

"...prisoners were given a weighed quantity of old rope cut into lengths equal to that of a hoop stick. Some of the pieces are white and sodden looking... others are hard and black with tar upon them. The prisoner takes up a length of junk and untwists it and when he has separated it into so many corkscrew strands, he further unrolls them by sliding them backwards and forwards on his knee with the palm of his hand until the meshes are loosened. The strand is further unravelled by placing it in the bends of a hook fastened to the knees and sawing it smartly to and fro which soon removes the tar and grates the fibres apart. In this condition, all that remains to be done is loosen the hemp by pulling it out like cotton wool, when the process is completed... The place is full of dust... the shoulders of the men are covered with brown dust almost as thick as the shirt front of a snuff taker... the hard rope cuts and blisters their fingers."

*(Criminal Prisons in London and Scenes of Prison Life gan H. Mayhew a J. Binny, cyhoeddwyd gyntaf yn 1862.)*



*"Plicio Ocwm."*

*(Criminal Prisons in London and Scenes of Prison Life gan* H. Mayhew a J. Binny,cyhoeddwyd gyntaf yn 1862.)

Roedd plicio ocwm yn amhleserus iawn ac roedd y carcharorion yn cael eu cosbi os nad oeddynt wedi cyflawni digon o waith. Weithiau roedd y carcharorion yn cael tâl am y gwaith - "money for old rope".

# y gell dywyll



Roedd llawer o'r carcharorion yn treulio rhan o'u dedfryd wedi eu arwahanu yn y "gell dywyll". Nid oedd ffenestr na golau yn y gell hon, ac unwaith roedd y carcharor i mewn a'r drws wedi'i gau'n dynn, byddai wedi bod bron yn amhosibl dirnad a oedd yn nos neu'n ddydd.

Petai carcharor yn cyflawni trosedd ddifrifol - fel taro swyddog neu geisio dianc - gallai gael ei roi yn y gell dywyll fel cosb. Gallai carcharorion dreulio diwrnodau, neu wythnosau hyd yn oed, ar eu pennau eu hunain yn nhywyllwch y gell hon, ac aeth llawer ohonynt yn wallgof.

# y gell gwiltiog

Defnyddiwyd y Gell Gwiltiog i gadw carcharorion ymosodol, gwyllt neu anhylaw. Yn arferol roedd y ffenestr yn uwch a'r drws yn lletach na rhai'r celloedd eraill.

Roedd y drws lletach yn galluogi'r wardeiniaid i hebrwng carcharor - wedi ei roi mewn siaced caeth weithiau - i'r gell. Roedd y drws yn agor at allan fel bo'r warden yn gallu gweld y gell gyfan drwy'r adeg.

Roedd y carcharorion yn cael eu rhoi yn y gell i'w diogelu eu hunain ac ar wahan i'r padiau cwiltiog wedi eu llenwi â blew ceffyl, a oedd yn gorchuddio'r waliau a'r drws, roedd yr ystafell yn wag. Mae'n siwr fod y waliau cwiltiog wedi rhwystro unrhyw swn rhag mynd i'r gell - a rhwystro unrhyw swn rhag dod allan hefyd!